

# CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

---

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07896964120

[cyngorybala@outlook.com](mailto:cyngorybala@outlook.com)

## Cofnodion Cyngor Tref Y Bala

8/12/16

**Presennol:** Y Maer Edith Roberts, Y Dirprwy Faer Dorothi Evans, Dilys Evans, Sharon Evans, Dilwyn Jones, Eluned Jones, Ivora Jones, Tony Parry, Alun Price, Eifion Roberts, John Caradog Williams, Dilwyn Morgan (*Cynghorydd Gwynedd*), Lis Puw (*Clerc*).

**Ymddiheuriadau:** Carol Rowlands

1. Wrth estyn croeso, cyfeiriodd Y Maer at yr anrhydedd a gafodd o gynrychioli'r Cyngor yn ddiweddar - mewn cyfarfod o'r Llang Prydeinig, mewn gweithgareddau yn y Noson Siopa Hwyr, yng nghyngerdd Côr Godre'r Aran ac yn nathliad canmlwyddiant sefydlu cangen o'r WI yn Y Bala.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Tony Parry ym mater cais cynllunio NP5/53/132L.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Tachwedd 6, 2016.
5. **Materion Cynllunio** Ystyriwyd ceisiadau cynllunio:

NP5/53/132L Cais ôl weithredu i gadw amlwyth dros dro, Clwb Rygbi'r Bala. Cytunwyd i gefnogi'r cais ar yr amod mai dros dro yn unig oedd y caniatâd, ac na fyddai caniatáu hyn yn arwain at ganiatâd parhaol heb ymgynghori ymhellach. Cytunwyd i ofyn i Barc Cenedlaethol Eryri am ddiffiniad o "dros dro" yn yr achos hwn.

NP5/53/547: Adeiladu Garej sengl, 5 Cae Bach – cymeradwywyd.

NP5/53/LU552 Cais am Dystysgrif Defnydd Cyfreithiol ar gyfer mast swyddfa tywydd arfaethedig ar dir wrth y llifddor – cymeradwywyd.

NP5/53/8J Co-op: uned rheweiddo newydd, uned storio a ffensio, drysau newydd yn y blaen ac ailaddurno tu blaen – cymeradwywyd, gyda chais i'r Awdurdod wirio a ydyw o fewn ffin gadwraethol y dref.

NP5/53/183D Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd wedi ei roi i ddymchwel yr anecs presennol a chodi anecs newydd ym Mryn y Groes, Heol Pensarn.

## 6. Materion Cyllid

Derbyniodd y Cyngor adroddiad BDO, sef yr Archwilwyr Allanol, yn cymeradwyo Cyfrifon y Cyngor am y flwyddyn yn gorffen 31/3/2016. Nid oedd unrhyw fater yn codi yn yr Adroddiad Blyneddol o'r Cyfrifon a oedd angen sylw.

Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis:

- Trosglwyddo dyraniad Gwynedd i Bartneriaeth Penllyn

- Cyflog y Clerc
- Costau'r Clerc am y flwyddyn 2016
- Costau teithio'r Cynrychiolydd i Bwyllgor Ardal Meirionnydd

## 7. Gohebiaeth

Gwynedd: Derbyniwyd amcangyfrif o'r gost o gynnal etholiad.

Llywodraeth Cymru:

- Derbyniwyd ymateb am y groesfan, yn mynegi bod y mater yn cael sylw.
- Derbyniwyd er gwybodaeth cynllun arfaethedig ar gyfer y Stryd Fawr. Nodwyd fod Lloches Bws a man parcio ychwanegol i'r anabl ar y cynllun. Cytunwyd i ofyn am liw coch ar wyneb y ffordd wrth ddod mewn i'r Bala o gyfeiriad Corwen, mewn ymgais i arafu'r drafnidiaeth.
- Cytunwyd i'r Clerc arwyddo'r Ffurflen gais am ganiatâd i gael goleuadau Nadolig.

8. **Materion lleol:** Cytunodd Edith Roberts, Carol Rowlands, Eluned Jones, a J C Williams i gyfarfod yr Aelod Cynulliad, Dafydd Elis Thomas, ar 9/12/16 i drafod y peryglon wrth y groesfan ym mhen uchaf y Stryd Fawr. Cytunodd y Clerc hefyd i fod yn bresennol yn y cyfarfod.

Cytunwyd i ofyn i Gyngor Gwynedd am arwydd "Ffordd y Gerddi yn arwain at Maes y Gerddi".

Trafodwyd y broblem o ddŵr yn crynhoi ar y llain parcio wrth y Post; gobeithir bydd y mater yn cael ei ddatrys wrth wneud gwelliannau i'r Stryd Fawr.

Adroddodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan fod y gwaith ar yr ysgol newydd ar safle Ysgol Y Berwyn yn parhau a bod y gwaith ar amser.